Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | South Wales Fire and Rescue Service

Swyddog Datrys

37 AWR YR WYTHNOS
CYFEIRNOD: NU073
GRADD 11
CYFLOG: £36,648 – £37,336
Cytundeb Cyfnod Penodol 12 mis

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yw un o Wasanaethau Tân ac Achub mwyaf, mwyaf llwyddiannus ac uchaf ei berfformiad yn y DU, yn gwasanaethu 1.5 miliwn o bobl ar draws 10 Awdurdod Unedol Cyfansoddol yn ymestyn o Ben-y-bont ar Ogwr i Drefynwy ac o Fae Caerdydd i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Swyddog Penderfyniadau i'n cefnogi i sefydlu safon ymddygiad uchel newydd .
Mae gosod safonau ymddygiad uchel o fewn y gweithlu yn hollbwysig er mwyn sicrhau ymddiriedaeth y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Rydym wedi ymrwymo I barhau I gynnal ein gwerthoedd o fod yn broffesiynol, yn ofalgar, yn barchus, yn ymroddedig, yn ddibynadwy, yn ddeinamig, yn ddisgybledig ac yn hydwyth.

Ar hyn o bryd rydym yn ceisio penodi Swyddog Penderfyniadau i'n cefnogi i sefydlu safon ymddygiad uchel newydd .

Mae'r rôl hon yn cynnwys cynnal ymchwiliadau annibynnol i gefnogi amrywiaeth o weithgareddau yn y gweithle, gan gynnwys disgyblu, achwynion a chwynion. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu dangos lefelau uchel o ran proffesiynoldeb, atebolrwydd ac annibyniaeth. Byddant yn feddylwyr manwl, gyda phrofiad o gynnal cyfweliadau ymchwiliol a llunio adroddiadau rheoli.

Lleolir y swydd ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX. Bydd angen gwneud rhywfaint o deithio rhwng lleoliadau ac mae'r rôl yn denu lwfans Defnyddiwr Car Hanfodol.

Dylid cwblhau Ffurflenni Cais ar-lein drwy law ein system e-recriwtio a ellir ei chyrchu drwy law ein gwefan: www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-â-ni/swyddi- gwag-cyfredol/

Os oes angen fersiwn papur, e-bostiwch: personel@decymru-tan.gov.uk.

Y dyddiad cau ar gyfer Ffurflenni Cais yw **04/03/2024 12:00 hanner dydd.** Mae'r dyddiadau ar gyfer y broses ddethol eto i'w cadarnhau.

Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd a bydd polisi gweithio'n hyblyg mewn grym. Mae'n bosibl y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn destun gwiriad cofnodion troseddol sylfaenol boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac efallai bod yn ofynnol iddo ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn penodi**.**

Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol. Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yng ngham y rhestr fer yn derbyn cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweliadau). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad ac fe all gynnwys Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Dylai pob ymgeisydd mewnol wneud cais trwy eu porth CORE, gan ddewis “Swyddi Gwag Cyfredol” o'r tab ar y chwith. Sylwch nad yw hyn yn berthnasol ar hyn o bryd ar gyfer swyddi gwag RDS.

Am drafodaeth anffurfiol ynghylch y rôl, cysylltwch â'r Rheolwr AD Jemma Wells ar 01443 232941.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.